Independent Office for Police Conduct
Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

# Hysbysiad Preifatrwydd

# Sut rydym yn prosesu eich data personol yn ymwneud ag epidemig iechyd cyhoeddus coronafeirws (COVID-19).

## Pwy ydym ni

Sefydlwyd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) i oruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, ac i gynnal hyder y cyhoedd yn y system.

I gael rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud, ac i gael manylion am sut i gysylltu â ni, ewch i'n gwefan.

## Pam rydym yn prosesu gwybodaeth amdanoch chi

Mae'r IOPC yn ymrwymedig i barchu a diogelu eich preifatrwydd. Bwriedir i'r hysbysiad hwn fod yn atodiad i'n hysbysiadau preifatrwydd eraill ar fusnes craidd ac adnoddau dynol. Gellir dod o hyd i'r rhain ar dudalen: Gwybodaeth preifatrwydd | Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw i esbonio sut ac at ba ddiben/ion y bydd yr IOPC yn casglu ac yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi (gan gynnwys data categori arbennig) sy'n ymwneud ag epidemig iechyd cyhoeddus y coronafeirws (COVID-19).

Y pwrpas yr ydym yn prosesu eich data personol ar ei gyfer yw rheoli ymateb yr IOPC i epidemig iechyd cyhoeddus y coronafeirws (COVID-19). Mae'r IOPC yn casglu ac yn cadw data personol sy'n berthnasol er mwyn asesu risg sy'n gysylltiedig â COVID-19- ar gyfer eu gweithwyr ac unrhyw un a allai fod wedi bod yn agored i risg sy'n gysylltiedig â COVID-19 trwy gyswllt ag aelodau staff yr IOPC.

Byddwn yn casglu ac yn cadw data personol yn gysylltiedig â'r sefyllfaoedd canlynol:

1) Gweithwyr yr IOPC – asesiadau risg COVID-19

    a. Mae'r IOPC eisoes yn cynnal asesiadau risg yn unol â chyfraith iechyd a diogelwch ar gyfer yr holl staff. Mae'r IOPC wedi ymrwymo i gynnal asesiadau iechyd a diogelwch ychwanegol ar gyfer gweithwyr a allai fod yn wynebu risg uwch neu a allai gynyddu'r risg o ddod i gysylltiad â COVID-19. Gall hyn fod oherwydd lleoli, risgiau ychwanegol a allai fod gan yr aelod o staff oherwydd bod ef/hi yn agored i niwed neu unrhyw

[1] Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu gynt. Sefydlwyd yr IOPC ar 8 Ionawr 2018.
[2] Rydym hefyd yn goruchwylio'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.

unrhyw reswm arall a allai gynyddu

b. Mae’r IOPC yn casglu data personol ar gyfer yr offeryn asesu risg ychwanegol hwn er mwyn asesu a dadansoddi’r risgiau a achosir gan COVID-19-19 ac i leihau’r risgiau hyn. Mae’r model yn asesu risg gyffredinol sy'n seiliedig ar amgylchiadau unigol a phersonol y gweithiwr. Bydd hyn yn cynnwys data categori arbennig megis data oedran, ethnigrwydd, rhyw a data iechyd. Bydd yr offeryn asesu risg wedyn yn galluogi i'r IOPC wneud argymhellion am amgylchedd gwaith y gweithwyr, a ddylid eu defnyddio ac unrhyw argymhelliad arall er mwyn lleihau risgiau (e.e. darparu offer diogelu personol neu ddarparu offer i weithio o bell ac ati).

c. Gall holl weithwyr yr IOPC gymryd yr asesiad hunan-risg COVID-19 er mwyn gwerthuso eu risgiau eu hunain. Nid yw hyn yn orfodol i'r holl staff.

2) Gweithwyr yr IOPC – mynychu swyddfeydd – ffurflen archebu

a. Mae’r IOPC yn casglu ac yn cadw data gweithwyr yr IOPC sy’n mynychu swyddfeydd yr IOPC. Ymhlith defnyddiau eraill, defnyddir y data hyn er mwyn asesu a lliniaru yn erbyn unrhyw risg o ddod i gysylltiad â COVID-19-. Mae hyn yn cynnwys casglu data personol contractwyr, secondeion, gweithwyr dros dro, prentisiaid, myfyrwyr ac ati

b. Bydd mynediad i'r swyddfeydd yn gyfyngedig ac mae'n rhaid i unrhyw un sy'n dymuno cael mynediad i'r swyddfa lenwi ffurflen archebu. Bydd hon yn casglu data personol gan gynnwys enw a rhif cyswllt personol y gellir eu trosglwyddo i gorff cyhoeddus fel yr amlinellir isod.

3) Ymwelwyr â swyddfeydd yr IOPC

a. Mae’r IOPC yn casglu ac yn cadw data unrhyw unigolyn sy’n ymweld â swyddfeydd yr IOPC er mwyn lliniaru unrhyw risg o gysylltiad posibl â COVID-19-.

b. Bydd gweithwyr yr IOPC yn gwneud trefniadau i ymwelwyr sy’n mynychu’r swyddfa er mwyn anfon eu manylion personol fel yr uchod ar y ffurflen archebu. Bydd hyn yn cynnwys eu henw a'u rhif cyswllt. Gellir trosglwyddo’r data personol hyn i gyrff cyhoeddus fel yr amlinellir isod.

**Y math o wybodaeth bersonol y gallem ei chasglu a’i phrosesu**

<u>Data personol</u>

Gall y data personol rydym yn eu casglu a’u prosesu amdanoch gynnwys, ond nid yw’n gyfyngedig i: enw, cyfeiriad, manylion cyswllt eraill (e.e. e-bost a rhifau teleffon), rhyw, teitl swydd, data lleoliad neu ddynodwr ar-lein

<u>Data categori arbennig</u>

Mae gan gategorïau penodol o ddata personol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol pan fyddant yn cael eu prosesu. Mae'r categorïau hyn yn ddata am eich iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig neu

ddata sy'n ymwneud â'ch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gall y data categori arbennig rydym yn eu casglu a'u prosesu amdanoch gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: gwybodaeth iechyd, eich hil neu darddiad ethnig a'ch rhyw a ddynodwyd ar adeg eich geni. Mae'r rhain yn cael eu casglu er mwyn asesu risg, nodi achosion o COVID-19 a lliniaru risgiau trosglwyddo.

Lle'n bosibl, byddwn yn darparu'r data yn ddienw. O fewn amgylchiadau eithriadol bydd yr IOPC yn datgelu eich data personol i drydydd parti lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom i wneud hynny neu lle mae'n angenrheidiol er budd y cyhoedd. Bydd yr unigolyn y mae ei ddata personol yn cael eu prosesu yn cael ei hysbysu. Ni fydd angen ei ganiatâd gan mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn digwydd er mwyn diogelu bywyd, lleihau'r risg o COVID-19- ac atal swyddfeydd cyfan rhag cau.

## Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich data

Y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw:

- ei bod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd
    - Mae Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU yn cyflawni tasg gyhoeddus yn yr ystyr eu bod yn rhedeg system monitro ac olrhain sydd er budd iechyd y cyhoedd. Maent yn ceisio lleihau lledaeniad feirws peryglus er mwyn helpu i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed ac i allu rheoli'r gofal iechyd a ddarperir gan y GIG er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei lethu a bod iechyd cyffredinol y cyhoedd yn cael ei ddiogelu cyn belled a phosibl trwy nodi'r bobl hynny sydd mewn cysylltiad â'r feirws a thrwy hynny ofyn iddynt ynysu, gan geisio "gwastatáu cromlin" niferoedd achosion .
    - Mae casglu a rhannu data personol yn angenrheidiol er mwyn diogelu gweithwyr a sicrhau y gall yr IOPC barhau i weithredu a chwrdd â'i ddyletswyddau statudol yn unol â'u swyddogaeth statudol a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002.

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu unrhyw ddata categori arbennig yw:

Erthygl 9 GDPR:

- Amod (i) – mae'r rhannu'n angenrheidiol am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd cyhoeddus er mwyn amddiffyn a lleihau risgiau o COVID-19 ac er mwyn amddiffyn y GIG drwy leihau'r rhai sy'n agored i COVID-19.

## Â phwy y byddwn yn rhannu eich data

Dim ond y rhai y mae'n ofynnol iddynt asesu risg yr unigolyn fydd yn cael mynediad at y data personol a gesglir yn asesiadau risg COVID-19 gweithwyr yr IOPC. Gall hyn gynnwys eu rheolwr llinell, Adnoddau Dynol a chyfleusterau.

Mae'n bosibl y bydd angen i'r IOPC drosglwyddo manylion y bobl hynny sydd wedi defnyddio ein swyddfeydd, i'r cyrff cyhoeddus perthnasol, a'r cyrff cyfatebol yng Nghymru, er mwyn atal achosion o COVID-19.

COVID-19. Mae'r cyrff cyhoeddus yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, monitro ac olrhain y GIG a thimau diogelu iechyd awdurdodau lleol.

Byddwn ond yn casglu, defnyddio a datgelu'r data a gesglir ar y ffurflen hon i'r corff cyhoeddus perthnasol at ddiben monitro ac olrhain pobl a allai fod wedi dod i gysylltiad ag unigolyn COVID-19 positif yn ein swyddfeydd.

**Am faint y byddwn ni'n cadw eich data**

Byddwn yn cadw data personol a gesglir  yn unol â'r amserlen cadw a gwaredu.

**Eich hawliau mewn perthynas â'r data rydym yn eu cadw**

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i chi sy'n ymwneud â'ch data personol. Mae'r hawliau hyn yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol. Gallai'ch hawliau gynnwys:

- yr hawl i gael mynediad at eich data
- yr hawl i gael eich data wedi'u cywiro os byddant yn anghywir neu'n anghyflawn
- yr hawl i geisio cyfyngiadau i brosesu'ch data
- yr hawl i wrthwynebu i'ch data gael eu prosesu
- yr hawl i gael eich data wedi'u dileu
- yr hawl i gael eich hysbysu am sut mae'ch data yn cael eu prosesu
- hawliau yn ymwneud â phenderfyniadau wedi'u hawtomeiddio a chludadwyedd data

Dylech ein hysbysu o unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth fel y gallwn fod yn hyderus bod y data rydym yn eu cadw amdanoch yn gywir.

I ddeall mwy am beth yw'r hawliau hyn a sut i'w harfer gweler ein gwefan.

**Ein Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data**

Ein rheolydd data yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Y rheolydd data sydd â'r rheolaeth gyffredinol dros ddiben a'r modd rydym yn casglu a phrosesu data personol.

Mae gan yr IOPC Swyddog Diogelu Data dynodedig a Thîm Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am ddefnyddio'ch hawliau data neu'r ffordd rydym yn casglu, yn trin neu'n prosesu eich data, cysylltwch â'r tîm naill ai trwy'r dudalen cysylltu â ni ar ein gwefan neu trwy anfon e-bost at dpo1@policeconduct.gov.u.k

Fel arall, gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9yb a 5yh, dydd Llun i ddydd Gwener.

**Eich hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth**

Os byddwch yn anfodlon ag unrhyw agwedd o'r ffordd rydym wedi prosesu'ch data personol, mae gennych yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF

www.ico.org.uk
Tel: 0303 123 1113
casework@ico.org.uk

## Adborth neu gwynion am ein gwasanaeth neu staff

Os oed eisiau rhoi adborth arnoch i ni neu wneud cwyn am ein gwasanaeth neu staff cysylltwch â'n Tîm Cwynion ac Adborth naill ai drwy dudalen cysylltu â ni ein gwefan neu drwy e-bostio Feedback@policeconduct.gov.uk

Fel arall, gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener neu adael neges unrhyw bryd ar 0207 166 3261.

## Adolygu'r hysbysiad hwn

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gallai gael ei ddiwygio. Ewch i'n gwefan yma i wirio am unrhyw ddiweddariadau.